Junior Learn to Swim Terms and Conditions

- Drwy ymuno â'n rhaglen Gwersi Nofio i Blant rydych chi'n cytuno â'r telerau ac amodau canlynol.
- Os byddwch chi'n talu ag arian parod, rhaid i chi brynu 10 o sesiynau cyn y sesiwn gyntaf a rhaid i chi brynu rhagor cyn y ddegfed sesiwn. Fel arall, byddwch chi'n colli'ch lle yn y gwersi.
- Os byddwch chi'n talu ag arian parod, cewch chi brynu hyd at 20 o sesiynau a chewch chi brynu rhagor yn y dderbynfa unrhyw bryd.
- Os byddwch chi'n talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, bydd raid i chi wneud taliad cychwynnol pro rata a thalu'r Debyd Uniongyrchol misol.
- Os bydd eich Cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol yn methu neu os caiff ei ddiddymu, rhaid i chi ei aildrefnu cyn y wers nesaf sydd wedi cael ei chynllunio. Fel arall, byddwch chi'n colli'r lle.
- Os bydd eich plentyn/plant yn gadael y Rhaglen Gwersi Nofio unrhyw bryd, cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad yw diddymu'r Debyd Uniongyrchol gyda'r banc a'r ganolfan hamdden. Mae hefyd modd canslo drwy e-bostio gwersinofio@rctcbc.gov.uk
- Fyddwn ni ddim yn rhoi ad-daliad i unrhyw gwsmer sydd ddim yn dilyn y broses ganslo uchod.
- Does dim modd ad-dalu taliadau am wersi oni fyddwch chi'n cyflwyno llythyr meddyg ar gyfer hyd y cyfnod o absenoldeb.
- Yn yr achos yma, caiff yr aelodaeth o'r cynllun ei gohirio. Fydd plentyn ddim yn bendant yn cael lle pan fydd yn dod yn ôl ond caiff flaenoriaeth.
- Does dim modd trosglwyddo gwersi rhwng unigolion.
- Mae gan reolwyr yr hawl i newid amser gwers pan fo angen.
- Mae rhaglen y gwersi yn un barhaus ac eithrio toriad pythefnos o hyd dros y Nadolig ac unrhyw Wyliau'r Banc.
- Mae'r broses pennu prisiau Debyd Uniongyrchol yn darparu ar gyfer y Nadolig a gwyliau'r Banc.
- Byddwn ni'n credydu cyfrifon cwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol, gaiff eu heffeithio gan wyliau'r banc (ar ddydd Llun a Gwener), yn hwyrach yn y flwyddyn. Fydd cwsmeriaid sy'n talu ag arian parod ddim yn colli credyd ar gyfer gwyliau'r banc.
- Os bydd canolfan yn cau neu os bydd yn diddymu gwers, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi gwybod i'n cwsmeriaid cyn gynted ag y bo modd. Gwnewch yn siŵr bod eich manylion cyswllt yn gyfredol yn gyson. Caiff cwsmeriaid gredyd am y wers sy wedi'i cholli, naill ai ar y system (ar gyfer y sawl sy'n talu ag arian parod) neu ar y taliad debyd uniongyrchol nesaf i'r sawl sy'n talu trwy ddebyd uniongyrchol.
- Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y bydd yr un Hyfforddwr yn cynnal pob gwers mewn cyfnod Ton. Serch hynny, mae'n bosibl y caiff hyfforddwyr eraill eu penodi i gyflenwi heb roi gwybod i chi ymlaen llaw.
- Bydd sgiliau nofio a chynnydd yn amrywio rhwng nofwyr. Caiff pob lefel (Sblash a Thonnau) eu diffinio ym Meini Prawf Nofio Cymru a chaiff y rhain eu defnyddio ar gyfer y broses asesu.
- Gwnewch yn siŵr bod gyda ni gofnodion cyfredol am gyflyrau meddygol eich plentyn.

- Cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad yw gwneud yn siŵr bod ei blentyn/blant yn heini a'i fod/eu bod yn ddigon iach i gymryd rhan yn y gwersi.
- Does dim hawl defnyddio ffonau symudol a/neu gamerâu i dynnu lluniau neu i ffilmio o dan unrhyw amodau.
- Dylech chi wneud ymholiadau ynghylch rhaglen y gwersi neu ynghylch cynnydd plentyn unigol yn nerbynfa'r Ganolfan Hamdden. Caiff yr ymholiad ei gyfeirio at y Rheolwr ar Ddyletswydd a fydd yn siarad â chi yn uniongyrchol. Os oes gennych chi gyfeiriad e-bost, beth am roi cynnig ar wefan Parent Portal? Mae modd defnyddio'r wefan yma i weld cynnydd eich plentyn ar-lein. Peidiwch â mynnu sylw athrawon yn ystod gwersi.
- Os bydd plentyn yn barod i symud i'r dosbarth nesaf, caiff hyn ei nodi'n awtomatig ar y system, a chaiff pob ymdrech ei wneud i roi lle iddo. Does dim modd addo hyn, fodd bynnag. Os does dim lle i'r plentyn, bydd rhaid iddo aros yn ei ddosbarth presennol tan fod lle ar gael.
- Mae gan y Cyngor yr hawl i ddiddymu cwrs ac i wrthod trefnu cwrs arall ar gyfer y nofiwr os bydd nofiwr/rhiant/gwarcheidwad yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol neu amhriodol. Mae hyn yn cynnwys methu â chydymffurfio â'r telerau ac amodau yma.
- Mae'n bosibl bydd angen asesu unrhyw nofwyr newydd cyn iddyn nhw ddechrau.
- Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi ymchwilio'n drylwyr i gefndir pob Athro Nofio a Goruchwyliwr Hamdden.
- Rhaid i rieni/gwarcheidwaid aros ar y safle yn ystod gwersi eu plant.
- Does dim hawl gan rieni ddod at ochr y pwll nofio yn ystod gwersi nofio o dan unrhyw amgylchiadau.
- Cyfrifoldeb y perchennog yw diogelu unrhyw eiddo sy'n cael ei adael yn yr ystafelloedd newid. Defnyddiwch y loceri sydd ar gael a cheisiwch osgoi gadael eich eitemau yn y ciwbiclau newid.
- Caiff y wefan Parent Portal ei diweddaru cyn gynted â phosibl ar ôl gwers eich plentyn.
- Mae gan bob athro nofio gymhwyster lefel 1 neu 2 ac mae pob un wedi cael hyfforddiant diogelu.
- Mae taliadau yn rhoi hawl i gwsmer gael un wers 30 munud yr wythnos.
- Mae modd gwneud ymholiadau drwy anfon e-bost i gwersinofio@rctcbc.gov.uk. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn ogystal â rhoi gwybod i chi ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer gwasanaethau yma: www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau diogelu data'r Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.